# Ansawdd a Llywodraethiant ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru

## Asesiadau Effaith y Papur Gwyn

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Papur Gwyn ar Ansawdd a Llywodraethiant ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru |
| **Enw'r Swyddog:** | Sioned Rees, Uwch-berchennog Cyfrifol |
| **Adran:** | Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2017 |
| **Clirio'r Gymraeg:** | 17.06.02. |

**Tudalen Gynnwys**


| | |
|---|---|
| **Y Papur Gwyn ar Ansawdd a Llywodraethiant ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru** | 3 |
| • Cyd-destun y Cefndir<br>○ Y Rhaglen Lywodraethu<br>○ Ymgynghoriad y Papur Gwyrdd<br>○ Adroddiad Cryno ar y Papur Gwyrdd | 3 |
| • Datblygiad y Papur Gwyn<br>○ Crynodeb o'r Cynigion<br>○ Sail Tystiolaeth | 4<br><br>5 |
| • Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br>○ Ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd | 7 |
| • Monitro a Gwerthuso | 8 |
| **Yr Asesiadau Effaith**<br>• Ein Dull o Ymdrin ag Asesiadau Effaith ar gyfer y Papur Gwyn hwn | 9 |
| • Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 9 |
| • Hawliau Plant | 10 |
| • Y Gymraeg | 11 |
| **Galluogwyr ac Asesiadau Effaith y Papur Gwyn** | Atodlen 1 |

# Papur Gwyn ar Ansawdd a Llywodraethiant ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru

## Cyd-destun Cefndirol

### Y Rhaglen Lywodraethu

1. Dywed y Rhaglen Lywodraethu – Symud Cymru Ymlaen 2016-21[1] – byddwn yn amddiffyn a gwella GIG Cymru dros y pum mlynedd nesaf ac yn sicrhau ei fod yn datblygu'n effeithiol i ddiwallu anghenion y dyfodol.

### Ymgynghoriad y Papur Gwyrdd

2. Ar 6 Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd Papur Gwyrdd, 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd' ar Ansawdd, Llywodraethu a Swyddogaethau'r GIG [2] ar gyfer ymgynghori i hyrwyddo trafodaeth lefel uchel ac i ofyn cwestiynau agored er mwyn helpu i lywio unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol.

3. Roedd dwy ran i'r Papur Gwyrdd:

   Roedd **Rhan 1** yn ymdrin â'r agenda ansawdd a gwella gwasanaethau ac yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn, yr heriau a wynebir, a nifer o gwestiynau ar beth arall y gallai fod angen ei wneud i wella ansawdd mewn gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n archwilio mecanweithiau posibl megis dyletswyddau o ran ansawdd a gonestrwydd, a fframweithiau safonau cyffredin, ac mae hefyd yn ystyried cryfhau ymgysylltu, llais y claf, a chyrff rheoleiddio ac arolygu.

   Roedd **Rhan 2** yn cynnwys nifer o faterion yn ymwneud â strwythurau sefydliadol a llywodraethiant sydd ar waith ar hyn o bryd ac sydd angen eu hailystyried ers y diwygiadau iechyd mawr diwethaf yn 2009, ac sy'n sbardunau allweddol i sicrhau bod gan sefydliadau y strwythurau, y sgiliau a'r galluogwyr i gefnogi ansawdd. Roedd yn edrych ar faterion cyllid, cynllunio, aelodaeth o'r bwrdd, y gweithlu'n gweithio mewn partneriaeth, a'r posibilrwydd o ehangu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i rôl Cymru gyfan.

### Adroddiad Cryno ar y Papur Gwyrdd

4. Mae'r adroddiad ar y crynodeb o ymatebion[3], a gyhoeddwyd ar 22 Chwefror 2016, yn tynnu sylw at y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg fel y meysydd posibl lle'r oedd y gefnogaeth fwyaf ar gyfer gwaith pellach, boed hynny drwy ganllawiau pellach, datblygu polisi, neu gynigion deddfwriaethol. Erbyn hyn mae'r

---

[1] Llywodraeth Cymru Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, Llywodraeth Cymru 2016
[2] Papur Gwyrdd, 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd' ar Ansawdd, Llywodraethu a Swyddogaethau'r GIG, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2015
[3] Adroddiad Cryno ar y Papur Gwyrdd, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2016

rhain wedi’u datblygu ymhellach yn y Papur Gwyn.

## Datblygiad y Papur Gwyn

### Crynodeb o’r Cynigion

5. Fel y nodir uchod, mae'r ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd yn dangos bod awydd am waith pellach a deddfwriaeth bosibl ar draws nifer o feysydd yn ymwneud ag ansawdd a llywodraethiant. Mae'r Papur Gwyn yn datblygu'r meysydd polisi yn fwy manwl, ac yn eu categoreiddio o dan y penawdau canlynol:

### *Llywodraethiant Effeithiol*

6. Mae angen y pwerau, y llywodraethiant a’r atebolrwydd cywir ar fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG er mwyn galluogi arweinwyr i wneud y penderfyniadau cywir gyda phobl ac ar eu cyfer. Mae angen i fyrddau fod o'r maint cywir gyda’r bobl briodol arnynt hefyd i weithredu'n strategol ac mewn partneriaeth â dinasyddion a sefydliadau eraill.

7. Mae'r Papur Gwyn yn nodi sut y bydd ein cynigion ar gyfer newid, gan gynnwys trwy ddeddfwriaeth newydd bosibl, yn helpu i sicrhau’r gymysgedd hon o ddiwylliant, arweinyddiaeth gref a llywodraethiant a fydd yn hanfodol os yw byrddau iechyd lleol yn mynd i ddatgloi eu haddewid fel sefydliadau seiliedig ar boblogaeth. Mae'n edrych ar y canlynol:

   - Cyfansoddiad Byrddau
   - Rôl Ysgrifennydd y Bwrdd.

### *Dyletswyddau i Hyrwyddo Newid Diwylliannol*

8. Er mwyn hyrwyddo diwylliant o gydgynhyrchu, mae'n rhaid i ni ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwella gweithredu agored, tryloywder a gonestrwydd ymhellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Soniodd hefyd am yr angen i fyrddau iechyd lleol edrych y tu hwnt i'w ffiniau statudol eu hunain wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a gofal.

9. Mae'r Papur Gwyn yn egluro ein cynigion ar gyfer dwy ddyletswydd newydd a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi mwy o ffocws i gamau gweithredu a’r broses o wneud penderfyniadau, sef:

   - Dyletswydd Ansawdd i Boblogaeth Cymru
   - Dyletswydd Gonestrwydd.

10. Mae angen i bob darparwr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ddangos eu bod yn gwneud y peth iawn, yn y ffordd iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn a chyda'r staff iawn. Dylai eu gofal fod yn ‘canolbwyntio ar unigolion’ ac yn unigoledig. Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cynigion a fydd yn cryfhau gofal sy’n canolbwyntio ar unigolion, drwy:

- Bennu a Bodloni Safonau Cyffredin
- Ymchwilio ar y cyd i Gwynion Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

***Llais Effeithiol i’r Dinesydd, Cydgynhyrchu ac Arolygu Clir***

11. Y bwriad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw eu darparu mewn ffordd fwy integredig, gyda'r nod o ddarparu profiad di-dor, sy'n canolbwyntio ar unigolion, ar lwybr sy'n cwmpasu gofal sylfaenol, gofal acíwt a gofal cymdeithasol. Mae'r Papur Gwyn yn edrych ar gynlluniau i gryfhau trefniadau ar gyfer:

    - Cynrychioli'r Dinesydd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
    - Cydgynhyrchu Cynlluniau a Gwasanaethau gyda Dinasyddion
    - Arolygu a Rheoleiddio.

**Sail Tystiolaeth**

12. Cyn cynnig unrhyw newid deddfwriaethol mae angen i ni fod yn glir ynghylch y materion yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw, yr hyn rydym yn adeiladu arno, ac effaith fwriedig y newidiadau. Mae'r Papur Gwyn yn adeiladu ar argymhellion a wnaed mewn adolygiadau gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), Ruth Marks, Syr Paul Williams ac eraill, yn ogystal â mewn darnau pwysig o ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod y cynigion yn y Papur Gwyn yw galluogi a grymuso sefydliadau a dinasyddion i weithio gyda'i gilydd.

13. Isod mae cyfeiriadau at rai o'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd yn y Papur Gwyn, fodd bynnag, nid yw'n rhestr gynhwysfawr.

| **Maes yn y Papur Gwyn** | **Sail Tystiolaeth** |
|---|---|
| Aelodaeth o’r Bwrdd | Cwestiynodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams)[4] a yw'r trefniadau presennol ar gyfer **aelodaeth bwrdd iechyd** yn darparu'r lefel angenrheidiol o her, ac felly’r sbardun i wella ansawdd |

[4] Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams), Sir Paul Williams, Ionawr 2014

| | |
|---|---|
| | gwasanaethau. Argymhellodd adolygiad o nifer, cynrychiolaeth a’r broses benodi gyfredol ar gyfer aelodau annibynnol o fyrddau iechyd. |
| Ysgrifennydd y Bwrdd | Craffwyd ar rôl Ysgrifennydd y Bwrdd yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'r trefniadau llywodraethiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr[5], yn 2013 a'r adroddiad ar y cyd cynharach i drefniadau llywodraethiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Ansawdd | Gwnaeth Adolygiad OECD o Ansawdd Gofal Iechyd yn y DU[6], a gyhoeddwyd yn 2016, nifer o sylwadau am systemau ar gyfer gwella ansawdd yng Nghymru. |
| Dyletswydd Gonestrwydd | Roedd dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol yn rhan o argymhellion ymchwiliad cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford[7]. Galluogodd y ddyletswydd a argymhellwyd gan adroddiad Francis i gwynion gael eu gwneud heb ofn; rhannu'r gwir am berfformiad gyda staff, cleifion, y cyhoedd a rheoleiddwyr a hysbysu cleifion am unrhyw niwed a wnaed iddynt a chynnig atebion priodol, boed cwyn wedi’i gwneud ai peidio. Codwyd y mater hwn yn Adolygiad Evans hefyd (gweler isod). |
| Cwynion ar y cyd | Argymhellodd adolygiad Evans[8] y dylai canllawiau *Gweithio i Wella* gael eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r cydweithio agosach rhwng y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru a gwella gallu sefydliadau i ymdrin yn effeithiol â **chwynion trawsbynciol** a dderbyniant. |

[5] Adroddiad ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'r trefniadau llywodraethiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwefror 2016

[6] Adolygiad OECD o Ansawdd Gofal Iechyd yn y DU, OECD, Chwefror 2016

[7] Argymhellion ymchwiliad cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford, Robert Francis QC, Chwefror 2016

[8] Adolygiad Evans, Using the Gift of Complaints, Keith Evans Mehefin 2014

| | |
|---|---|
| Rheoleiddio ac Arolygu | Gwnaeth adolygiad Ruth Marks o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)[9] nifer o argymhellion ynghylch gweithrediad effeithiol AGIC a chynghorodd hefyd fod angen gwneud rhagor o waith ar annibyniaeth a'r posibilrwydd o uno gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). |
| Llais y Dinesydd | Cododd adolygiad Ruth Marks y mater o ddyblygu posibl hefyd rhwng rhai o swyddogaethau Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) a'r arolygiaethau. Mae'r adroddiad OECD yn argymell hefyd y dylid canolbwyntio ar lais y claf a gofynnodd gwestiynau am werth swyddogaethau cyfredol y Cynghorau. Cyfeiriodd Adolygiad Ann Lloyd (gweler isod) hefyd at rôl y Cynghorau wrth newid gwasanaethau. |
| Newid Gwasanaethau a Chydgynhyrchu | Adolygodd Ann Lloyd y ffordd yr oedd byrddau iechyd yn cyflawni eu rôl ymgysylltu ac ymgynghori wrth ad-drefnu gwasanaethau ar raddfa fawr.[10] Nododd nifer o gryfderau yn y dulliau a ddefnyddir, gan amlygu er enghraifft, gwell ymgysylltu â chlinigwyr, ond nododd nifer o feysydd i'w gwella hefyd. Yn benodol, tynnodd sylw'n at yr angen am ymgysylltu parhaus gwell â chymunedau lleol ac nid yn unig pan fo opsiynau newid penodol yn cael eu cyflwyno. |

**<u>Ymgysylltu â Rhanddeiliaid</u>**

14. Ymgysylltwyd yn helaeth yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ac mae rhywfaint o ymgysylltu ar bolisïau penodol wedi'i gynnal cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn. Bydd ymgysylltu pellach â phartneriaid a'r cyhoedd yn digwydd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn rhwng 28 Mehefin a 29 Medi.

---

[9] Adolygiad Ruth Marks o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Ruth Marks, Tachwedd 2014
[10] Adolygiad annibynnol o'r gwersi a ddysgwyd ynghylch Ymaferion Ymgysylltu ac Ymgynghori gan Fyrddau Iechyd ar Newid Gwasanaethau'r GIG. Ann Lloyd CBE, Ionawr 2014

**Ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd**

15. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod estynedig rhwng 6 Gorffennaf a 20 Tachwedd 2015, er mwyn rhoi digon o amser i gasglu safbwyntiau. Defnyddiwyd nifer o ddulliau cyfathrebu i ymgysylltu â rhanddeiliaid, partïon â diddordeb a'r cyhoedd, gan gynnwys:

- Cyfarfod briffio technegol gyda'r wasg
- Negeseuon e-bost at randdeiliaid allweddol
- Sianelau cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- Erthyglau yng nghylchgronau/bwletinau grwpiau rhanddeiliaid allweddol
- Fideo yn Iaith Arwyddion Prydain ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru
- Fersiwn Hawdd ei Darllen o'r Papur Gwyrdd.

16. Derbyniwyd cyfanswm o 170 o ymatebion ysgrifenedig[11]; cyrhaeddodd 15 o'r rhain ar ôl y dyddiad cau ond ystyriwyd y sylwadau hynny. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, un yng Nghaerfyrddin a'r llall yn Wrecsam, i gasglu barn. Roedd yr ymatebion a'r sylwadau'n amrywio'n eang o safbwyntiau manwl am aelodaeth ac arweinyddiaeth bwrdd iechyd, i sylwadau am gyflawni cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, ac o syniadau am reoleiddio ac arolygu effeithiol i wrando ar lais cleifion. Yn gyffredinol, un o'r negeseuon ehangach oedd nad oedd cefnogaeth i gyflwyno deddfwriaeth newydd mewn nifer o feysydd lle gallai darpariaethau presennol gael eu defnyddio'n fwy effeithiol, ac roedd cryfhau systemau a mecanweithiau yn cael ei ffafrio dros gyflwyno dyletswyddau statudol pellach.

17. Cynhyrchwyd adroddiad yn crynhoi'r prif themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad, gan gynnwys yr ymatebion ysgrifenedig, yr amrywiol gyfarfodydd a fynychwyd gan swyddogion a'r ddau ddigwyddiad a gynhaliwyd. Roedd yr adroddiad yn ceisio cyflwyno crynodeb cytbwys o'r ymatebion hynny a dderbyniwyd heb ffafrio unrhyw sefydliad neu unigolyn. Cyhoeddwyd adroddiad yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar 22 Chwefror 2016.

**<u>Monitro a Gwerthuso</u>**

18. Bydd llwyddiant y polisi'n cael ei asesu drwy fframwaith monitro a fydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cynllun gweithredu unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn hysbys. Os bydd deddfwriaeth at y dyfodol yn cael ei ddatblygu erbyn diwedd tymor Cynulliad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r modd o fesur llwyddiant y gwahanol gynigion polisi. Byddwn yn ystyried hynny hefyd mewn Asesiadau Effaith unigol wedi'u diweddaru.

[11] Ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd – Rhestr lawn o ymatebwyr Chwefror 2016

19. Rydym yn disgwyl y bydd y gwaith o fonitro llwyddiant y cynigion hyn yn cael ei wneud drwy gyfrwng amrywiol ddulliau sy'n bodoli eisoes ar gyfer goruchwylio gwella ansawdd.

20. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac ystyried deddfwriaeth arfaethedig yn y dyfodol byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

# Yr Asesiadau Effaith

## Ein Dull o Ymdrin ag Asesiadau Effaith ar gyfer y Papur Gwyn hwn

21. Mae'r Papur Gwyn yn cyflwyno cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu mewn nifer o feysydd. Er bod posibilrwydd y gallai rhai neu bob un o'r meysydd hyn gael eu datblygu'n ddeddfwriaeth ymhen amser, nid oes unrhyw benderfyniadau pendant wedi'u gwneud eto. Felly, at ddibenion y Papur Gwyn rydym o'r farn bod lefel gymharol uchel o asesu effaith yn gymesur ar hyn o bryd. Felly rydym wedi dod â'r tri asesiad o effaith gorfodol at ei gilydd mewn un papur trosfwaol. Os bydd deddfwriaeth yn cael ei datblygu, bydd asesiadau mwy manwl o effaith yn cael eu paratoi.

22. Mae dadansoddiad manylach yn erbyn meysydd galluogwr y Papur Gwyn yn Atodlen 1.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

23. Amcan y Papur Gwyn hwn yw sefydlu fframwaith llywodraethiant cadarn a ffocws parhaus ar wella ansawdd gan ganiatáu ar gyfer mwy o weithio mewn partneriaeth ar draws byrddau iechyd lleol a gyda phartneriaid; ymgysylltu mwy effeithiol â'r cyhoedd a chynrychioli lleisiau dinasyddion; cyflwyno prosesau cyffredin, megis safonau a systemau cwynion i ategu ac integreiddio gwasanaethau ar waith; bod yn agored a thryloywder ac eglurder o ran cylch gwaith arolygu.

24. Gan mai themâu craidd y Papur Gwyn hwn yw cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethiant ac ysgogi gwelliannau mewn ansawdd, dylai'r rhain gael effaith uniongyrchol ar leihau'r posibilrwydd o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon.

25. Dylai cydgynhyrchu chwalu'r rhwystrau rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae'n golygu bod pobl yn gwneud penderfyniadau ar y cyd am eu gofal eu hunain. Mae'n golygu hefyd fod cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau'n gweld eu defnyddwyr fel pobl â sgiliau a phrofiad defnyddiol i'w cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Mae angen i systemau ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol wneud newid gwirioneddol tuag at y ffordd hon o weithio gan mai dyma sut bydd safonau ac ansawdd yn cael eu gwella.

26. Un o'r amcanion a amlinellwyd fel rhan o'r Papur Gwyn yw hyrwyddo egwyddorion allweddol ar draws sefydliadau'r GIG yng Nghymru er mwyn annog dulliau cyffredin ar draws y system gyfan, gan sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu. Gall unigolion a'u teuluoedd ddisgwyl cael yr un safon o ofal ar draws rhanbarthau a gwasanaethau yn hytrach na dulliau amrywiol a thameidiog. Dylai egwyddorion, trefniadau a chyfleoedd cyffredin fod ar waith mewn perthynas â llesiant a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bob unigolyn yng Nghymru.

## Hawliau Plant

27. Cymru oedd y wlad gyntaf i ymgorffori hawliau plant mewn cyfraith. Mae hyn yn golygu pryd bynnag y byddwn yn gwneud penderfyniad, rhaid i ni ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc. Rydym eisiau i blant a phobl ifanc yng Nghymru fyw bywydau diogel, hapus ac iach a theimlo bod y rhai o'u cwmpas yn gwrando arnynt ac yn eu parchu.

28. Dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 bod yn rhaid i unigolyn sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i dderbynodi gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 ar 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").

29. Yr erthyglau CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r cynigion a gyflwynir gan y Papur Gwyn hwn yw'r canlynol:

    - **Erthygl 6**
      Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.
    - **Erthygl 12**
      Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.
    - **Erthygl 23**
      Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.
    - **Erthygl 24**
      Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.
    - **Erthygl 33**
      Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

30. At hynny amlygodd Adroddiad CCUHP 2016 ar gyfer Llywodraeth y DU (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) bryder nad yw llawer o blant ag anableddau yn gweld bod eu barn yn cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniadau personol yn eu bywyd, gan gynnwys y dewis o gefnogaeth a dyfodol.

31. Bydd cydnabod anghenion plant a phobl ifanc yn y broses o gynllunio gwasanaethau ac ystyried eu barn fel rhan o broses ymgysylltu barhaus a gweithredol ar gyfer model newydd ar gyfer llais y dinesydd yn gam ymlaen tuag at hyrwyddo Erthyglau CCUHP a'r argymhelliad uchod.

32. Drwy'r egwyddorion allweddol a gynigir dylai pob dinesydd fod wrth wraidd eu gofal iechyd eu hunain, trwy drefniadau integredig cydgysylltiedig, gwneud penderfyniadau gwybodus a gwell gwasanaethau o ansawdd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig deddfu ar gyfer mecanwaith statudol newydd ar gyfer ymgysylltu parhaus â mesurau canlyniadau priodol. Bydd hyn yn ystyried ymgysylltu â chynrychiolaeth o bob rhan o'r boblogaeth leol, a fyddai'n cynnwys plant a phobl ifanc.

## **Y Gymraeg**

33. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys peidio trin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg, a rhyddid i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae'r mesur yn darparu ar gyfer safonau newydd sy'n berthnasol i amrywiaeth o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a chefnogi'r rhai sy'n dymuno gweithio neu gynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gynnig gweithredol.

34. Mae strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg; *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012–17* – yn cael ei disodli ar hyn o bryd gan strategaeth newydd i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ymgynghorwyd ar ddrafft o'r strategaeth newydd a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi yn 2017. Mae'n debygol o bwysleisio pwysigrwydd addysg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang. Mae'n debygol y bydd ffocws penodol ar ddefnyddio'r iaith – yn y gymuned, wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, ac yn y gweithle.

35. Bydd y Papur Gwyn hwn a'r Asesiad o Effaith sy'n cyd-fynd ag ef yn cadw at yr ymrwymiad gweinidogol y bydd ymgynghoriadau, deddfwriaeth a chanllawiau yn rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg, ac felly maent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

36. Mae *Mwy na geiriau: fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iaith Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol* yn cyflwyno dull strategol o sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau yn unol â'u dewis a'u hangen i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain a chyfleu eu hanghenion yn Gymraeg, gan eu bod yn meddwl ac yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gwaith o gyflwyno'r fframwaith yn cael ei gefnogi drwy'r cynigion yn y Papur Gwyn sy'n rhoi sylw i ofal sy'n canolbwyntio ar gleifion ac ar gyfer mecanwaith statudol newydd ar gyfer ymgysylltu parhaus a fydd yn darparu cymorth ychwanegol, arbenigedd ac arweiniad i ymgysylltu â chynrychiolaeth ar draws y boblogaeth leol, gan

gynnwys y rhai sy'n cyfathrebu, ymgysylltu a chymryd rhan yn Gymraeg os ydynt angen neu'n dymuno gwneud hynny.

37. Bydd sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn cyflawni eu dyletswydd i ymgysylltu drwy wahanol fecanweithiau, fel paneli cleifion neu grwpiau cyfranogiad, yn helpu pobl i arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus. Byddai angen i sefydliadau'r GIG gael tystiolaeth bod cynrychiolaeth o bob rhan o'r boblogaeth leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, wedi eu hystyried fel rhan o'r mecanweithiau ymgysylltu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

38. Dylai cydgynhyrchu chwalu'r rhwystrau rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae'n golygu bod pobl yn gwneud penderfyniadau ar y cyd am eu gofal eu hunain. Mae'n golygu hefyd fod cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau'n gweld eu defnyddwyr fel pobl â sgiliau a phrofiad defnyddiol i'w cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Os bydd cleifion yn dymuno cymryd rhan yn y broses hon drwy gyfrwng y Gymraeg yna gellir rhoi'r cyfle hwn iddynt.

**Galluogwyr ac Asesiadau Effaith y Papur Gwyn**

| | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Hawliau Plant | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|
| ***Llywodraethiant Effeithiol*** | | | |
| Effaith | Un o egwyddorion sylfaenol y Papur Gwyn yw sicrhau bod llais y dinesydd yn cael ei glywed. Bydd hyn yn cael ei gryfhau drwy benodiadau Bwrdd i adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi ac ystyried y cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau a chefndiroedd.<br><br>Bydd y Papur Gwyn yn darparu mecanweithiau i ganiatáu i gynrychiolaeth gael ei chryfhau lle bo angen, drwy ddiwygio Rheoliadau ymhellach.<br><br>Mae'n rhaid i bob penodiad a wneir gan Weinidogion Cymru gydymffurfio â gofynion Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Bydd rôl Ysgrifennydd y Bwrdd, sef darparu annibyniaeth, herio a sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, yn cael ei chryfhau ymhellach gan gynigion y Papur Gwyn ar gyfer statws amddiffynnol. | Fel yr amlygwyd, mae'n rhaid i'r Byrddau adlewyrchu cynrychiolaeth o'u poblogaeth leol, a fydd yn cynnwys ystyried Hawliau Plant. | Fel yr amlygwyd, mae'n rhaid i'r Byrddau adlewyrchu cynrychiolaeth o'u poblogaeth leol, a fydd yn cynnwys ystyried y Gymraeg.<br><br>Dylai pob penodiad a wneir gan Weinidogion Cymru gydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol gofynion Safonau'r Gymraeg ar recriwtio a phenodi. |
| Monitro ac Adolygu | Byddwn yn parhau i fonitro trwy'r broses penodiadau cyhoeddus, sy'n ystyried perfformiad a phresenoldeb aelodau presennol y Bwrdd yn ogystal ag egwyddorion y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol.<br>Byddwn hefyd yn monitro sut mae cydraddoldeb/hawliau plant ac ystyriaethau/effeithiau ar y Gymraeg yn cael eu hystyried ym mhapurau/trafodaethau'r Bwrdd a mewnbwn gan hyrwyddwyr i sicrhau bod yna gynrychiolaeth | | |

| | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Hawliau Plant | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|
| | gytbwys a chryfach o faterion i wella'r broses o wneud penderfyniadau. | | |
| ***Dyletswyddau i Hyrwyddo Newid Diwylliannol - Dyletswydd Ansawdd i Boblogaeth Cymru*** | | | |
| • Effaith | Bydd dyletswydd ansawdd i boblogaeth Cymru yn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn gweithio gyda phartneriaid a dinasyddion i hyrwyddo lles ac i gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Bydd hyn yn golygu rhoi sylw penodol a chanolbwyntio ar anghenion gwahanol sectorau o'r gymuned ac unigolion, gan gynnwys pobl hŷn, pobl â nam ar y synhwyrau, anableddau corfforol ac anghenion iechyd meddwl. | Bydd cydnabod anghenion plant a phobl ifanc yn y broses o gynllunio gwasanaethau yn ystyriaeth allweddol, a bydd y ddyletswydd newydd yn sail i'r disgwyliad hwn. | Mae sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r ddarpariaeth o wasanaeth iechyd diogel o safon, a bydd y ddyletswydd newydd yn cefnogi hyn. Dylid diwallu anghenion y boblogaeth wrth gynllunio fel bod gwasanaethau'n cynnwys cyfranogiad ac ystyriaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg hefyd. |
| • Monitro ac Adolygu | Byddem yn disgwyl monitro'r ddyletswydd hon drwy nifer o fecanweithiau, gan gynnwys y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs), Datganiadau Ansawdd a Llywodraethiant Blynyddol, cynlluniau ymgysylltu a gwybodaeth arall a gyhoeddir gan fyrddau iechyd lleol, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch a grwpiau mwy strategol fel y Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol. Byddem yn monitro hefyd drwy waith a wneir gyda phartneriaid wrth hyrwyddo lles ac integreiddio yn enwedig drwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Fforymau Partneriaeth Rhanbarthol. | | |
| ***Dyletswyddau i Hyrwyddo Newid Diwylliannol – Dyletswydd gonestrwydd*** | | | |
| • Effaith | Bydd dyletswydd gonestrwydd yn golygu y bydd gofyn i sefydliadau a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt fod yn agored a thryloyw yn eu perthynas | Lle mae gan blant a phobl ifanc y gallu, yna byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd yr | Mae cyfathrebu ag unigolion drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan hanfodol o ddarparu |

| | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Hawliau Plant | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|
| | gyda defnyddwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn golygu cael dealltwriaeth o nodweddion y defnyddiwr gwasanaethau a sicrhau bod y dulliau a roddir ar waith yn adlewyrchu gofynion diwylliannol a gofynion eraill. | un mor berthnasol iddyn nhw ag i oedolyn. Bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn dal i fod yn berthnasol i blentyn neu berson ifanc sydd heb alluedd, ond byddai angen ymdrin â hyn gyda'r person â chyfrifoldeb rhiant. | gwasanaeth diogel o safon. Bydd angen i'r dulliau a ddefnyddir adlewyrchu gofynion y Gymraeg. |
| • Monitro ac Adolygu | Byddem yn disgwyl monitro effaith y Ddyletswydd Gonestrwydd drwy edrych ar nifer y cwynion, ar bob lefel, ynghylch cyfathrebu ac ymdrin â chwynion. Yn benodol, mae nifer fawr o gwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â'r ffordd y mae cwynion wedi eu trin. Byddem yn disgwyl i drefniadau mwy agored a thryloyw ar lefel sefydliadol arwain at lai o bryderon yn mynd ymlaen drwy'r sianeli ffurfiol. | | |
| ***Iechyd a Gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion - Safonau Cyffredin*** | | | |
| • Effaith | Dylai fod gan y safonau sy'n sail i ofal egwyddorion cyffredin heb ystyried a yw'r ffocws yn ofal iechyd neu'n ofal cymdeithasol. Mae angen i ofal a'r safonau sy'n sail i ofal gael eu gweld yn bennaf trwy lygaid y person sy'n derbyn gofal, ac nid trwy lygaid y sefydliadau sy'n darparu gofal. Felly, dylai cyflwyno safonau cyffredin gael effaith gadarnhaol o ran gwella darpariaeth gwasanaethau drwy wella tegwch a chaniatáu ffocws ar ofal unigoledig. | Bydd safonau cyffredin yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc a bydd yn gwella mynediad teg i wasanaethau. | Mae siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn debygol o gael budd o safonau cyffredin a'r cyfraniad a wneir ganddynt o ran darparu gwasanaethau yn well a gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion. |
| • Monitro ac Adolygu | Byddem yn disgwyl monitro effeithiolrwydd safonau cyffredin drwy ansawdd adroddiadau arolygu a gynhyrchir gan yr arolygiaethau, a byddai sefydliadau iechyd a gofal yn gwneud hynny hefyd drwy eu prosesau hunanasesu a phrosesau eraill sy'n gysylltiedig ag archwilio. | | |

| | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Hawliau Plant | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|
| | | | |
| ***Iechyd a Gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion - Ymdrin â chwynion iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd*** | | | |
| • Effaith | Mae’r cynnig ar gyfer ymdrin â chwynion ar y cyd yn debygol o fod o fudd cyffredinol, er ein bod yn rhagweld y byddai pobl hŷn a phobl eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phobl ag anableddau yn enwedig yn gweld effeithiau cadarnhaol, o gofio bod angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd yn aml i ddarparu pecynnau gofal. Wrth ymdrin â chwynion, dylai sefydliadau sicrhau eu bod wedi ystyried unrhyw nodweddion penodol yn ymwneud â'r achwynydd a'r teulu er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau o'r ymchwiliad. | Byddem yn rhagweld y bydd plant a phobl ifanc yn cael budd o broses sy’n ymdrin â chwynion ar y cyd, yn enwedig y rhai sydd angen pecynnau gofal ar y cyd neu’r rhai sy'n symud rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. | Mae siaradwyr Cymraeg yn debygol o gael budd o broses sy’n ymdrin â chwynion ar y cyd gan y bydd timau mewn sefydliadau yn gallu rhannu arbenigedd ac adnoddau yn y Gymraeg i gynnig dulliau a gaiff eu teilwra i raddau mwy trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| • Monitro ac Adolygu | Byddem yn disgwyl gweld llai o gwynion am iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a byddem yn monitro hyn i weld effaith y newidiadau arfaethedig. | | |
| ***Llais Effeithiol i’r Dinesydd ac Arolygu Clir*** | | | |
| • Effaith | Bydd y cynigion ar gyfer ymgysylltu parhaus mwy effeithiol â chymunedau lleol yn ogystal â'r rhai ar gyfer model newydd ar gyfer llais y dinesydd o fudd i bob sector o'r gymuned. Bydd byrddau iechyd yn cael eu dwyn i gyfrif yn fwy trylwyr ar eu dyletswydd i ymgysylltu â'r boblogaeth a'r ffocws maent yn ei roi ar yr ystod amrywiol ac ar anghenion penodol unigolion a grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, cymunedau sipsiwn a theithwyr a phobl eraill. Bydd y newidiadau | Fel y dywed Erthygl 12 o CCUHP, mae gan blant yr hawl i fynegi barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. Byddem yn disgwyl i sefydliadau ystyried hyn yn llawn wrth ymgysylltu â dinasyddion ac yn y ffordd y | Bydd ymgysylltu parhaus a gweithredol â chymunedau lleol, a nodir o dan gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cynnwys y boblogaeth Gymraeg a chymunedau Cymraeg a dylai hyn gael ei gynnig yn drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae'r fframwaith Mwy na |

| | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Hawliau Plant | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|
| | arfaethedig i drefniadau llais y dinesydd yn golygu mwy o hyblygrwydd ar gyfer y corff newydd i sicrhau croestoriad amrywiol o wirfoddolwyr, sy'n addas ar gyfer anghenion lleol.<br><br>Bydd deddfwriaeth gliriach ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o fudd cyffredinol i'r gymuned gan na fydd unrhyw fylchau rheoleiddio mwyach. O ran y corff newydd arfaethedig ar gyfer arolygu, rheoleiddio a llais cleifion, bydd hyn yn ddull pwerus o gadw cydbwysedd wrth ddwyn y maes iechyd a gofal cymdeithasol i gyfrif. | maent yn cael eu cynrychioli. | geiriau ar gyfer 2016- 2019 yn cynnwys camau gweithredu ar reoleiddio ac arolygu, gan gynnwys archwilio a phrif ffrydio arolygiadau ar y ddarpariaeth a phrofiad o wasanaethau Cymraeg. |
| • Monitro ac Adolygu | Byddem yn disgwyl monitro effeithiolrwydd y cynigion newydd hyn trwy weithgareddau adrodd a chyswllt rheolaidd â sefydliadau unigol a'r corff arfaethedig ar gyfer llais y dinesydd. O ran newid gwasanaethau, bydd effeithiolrwydd y trefniadau newydd ac ymgysylltu parhaus yn cael ei fesur drwy nifer y penderfyniadau y mae angen eu galw i mewn gan Weinidogion. Byddem yn disgwyl i'r nifer hwn fod yn isel. | | |